

Mynd am Aur: Astudiaeth Achos Gyfreithiol ac Empirig o Sganio 3D, Argraffu 3D a Mas-gwsmereiddio ym maes Gemwaith Hen a Modern

Dinusha Mendis: Athro mewn Cyfraith Eiddo Deallusol, Cyd-Gyfarwyddwr y [Ganolfan Polisi a Rheoli Eiddo Deallusol \(CIPPM\)](#), Prifysgol Bournemouth a Nikolaos Maniatis, Rheolwr Gyfarwyddwr, [Museotechniki Ltd](#)

Mae twf technolegau 3D yn effeithio ar gyfraith eiddo deallusol (ED). Mae i hyn nifer o oblygiadau, gan gynnwys materion hawlfraint, dylunio a thrwyddedu. Nod y papur hwn, sy'n seiliedig ar y Prosiect ['Mynd am Aur'](#) a gyllidir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yw ymdrin â'r materion hawlfraint a dylunio sy'n gysylltiedig â sganio 3D, argraffu 3D a mas-gwsmereiddio ym maes gemwaith hen a modern, yn y sector diwylliannol.



Ni roddwyd llawer o sylw hyd yma, o safbwynt eiddo deallusol, i oblygiadau sganio ac argraffu arteffactau amgueddfeydd mewn 3D, ac nid oes fawr ddim dealltwriaeth o'r materion eiddo deallusol sylfaenol. Gan weithio gyda sawl amgueddfa, bydd y papur hwn yn gosod Canllawiau Arfer sy'n amlinellu'r arferion diweddaraf a chyffredin mewn perthynas â'r materion hawlfraint, trwyddedu a chytundebol sy'n codi wrth gynhyrchu archifau digidol 3D yn ystod prosiectau digido.

Er y bydd datblygiadau o'r fath yn cael effaith ar ddylunio, byddant hefyd yn effeithio ar gyfreithiau eiddo deallusol, fel yr amlinellir yn y papur hwn.